

RHAGLEN ARFOR - Canllawiau Cymunedau Mentrus

Pwrpas ARFOR yw:

Cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol. Cefnogi'r cymunedau sy'n gadarnleoedd y Gymraeg i ffynnu drwy ymyriadau economaidd a fydd hefyd yn cyfrannu at gynyddu cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol

Pwrpas Cymunedau Mentrus yw:

Datblygu Gofodau Cymraeg sy'n cynnig amgylchedd naturiol i bobl weithio a chymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg

Beth yw'r Gronfa Cymunedau Mentrus?

Mae'r gronfa yn:

- Gyllid i gyfrannu at gostau refeniw a chyfalaf.
- Cefnogaeth ariannol i dalu am hyd at 70% o gostau'r prosiect.
- Cefnogaeth rhwng £5,000 a £75,000 ar gael.

Yn targedu mentrau masnachol, cymdeithasol a chydweithredol sydd yn anelu at gadw a chynyddu cyfoeth yn lleol mewn ardaloedd sy'n cael eu hystyried yn gadarnleoedd y Gymraeg, sef Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin (rhanbarth ARFOR).

Mae'r Gronfa am gefnogi prosiectau sy'n:

- Creu cyfle i arloesi a datblygu mentrau newydd yn unol ag adnoddau, tirwedd a'r amgylchedd lleol.
- Creu neu ehangu cyfleoedd gwaith cyfoes (e.e. ym meysydd y cyfryngau, y byd digidol, ymchwil, gwasanaethau proffesiynol).
- Cadw cyfoeth yn y rhanbarth (e.e. trwy feysydd megis cynhyrchu ac arbed ynni, cadwyni cyflenwi'r sectorau sylfaenol).



Heriau rhanbarth ARFOR

Bydd y cynlluniau llwyddiannus yn ymateb i'r heriau isod sy'n gyffredin ar draws rhanbarth ARFOR:

SWYDDI

- Mae yna farn gyffredinol nad yw'r swyddi sydd ar gael o fewn Rhanbarth ARFOR yn cynnig incwm digonol i alluogi pobl i wireddu eu dyheadau (o ran tâl a chydbwysedd bywyd-gwaith).
- Mae diffyg amrywiaeth o swyddi yn rhwystr i bobl a theuluoedd ifanc aros yn eu cymunedau cynhenid neu ddychwelyd iddyn nhw.
- Mae 'na fwlch rhwng sgiliau sydd ar gael ac anghenion cyflogwyr.

YR ECONOMI LEOL

- Mae angen i gymunedau ac unigolion fanteisio ar gyfleoedd a rhinweddau economaidd-gymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac ieithyddol unigryw'r rhanbarth
- Yr angen i ychwanegu gwerth at gynnyrch lleol.
- Yr angen i fanteisio ar y sectorau economi sylfaenol a chylchol, trwy sicrhau bod mwy o arian yn cylchdroi o fewn y rhanbarth.
- Yr angen i ymateb i'r risgiau o golli neu berygl o golli adnoddau a gwasanaethau lleol allweddol mewn cymunedau.

Y GYMRAEG

- Mae angen i fentrau masnachol a chymdeithasol wneud mwy o gyfraniad i gynyddu defnydd o'r Gymraeg er mwyn ychwanegu gwerth at eu nwyddau / gwasanaethau a chynnal naws am le o fewn cymunedau rhanbarth Rhaglen ARFOR.
- Byddwn yn disgwyl i ymgeiswyr ddangos sut byddant yn cyflawni allbynnau a chanlyniadau canlynol Rhaglen ARFOR yng nghyswllt y Gymraeg.
 - Nifer o ofodau Cymraeg newydd/datblygir ymhellach
 - Nifer o swyddi sydd yn gofyn am sgiliau dwyieithog
 - Cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan y sefydliad
 - Cyfleoedd arloesol i hybu defnydd y Gymraeg a'r nifer o siaradwyr

Mae cyfle i chi gynnig dull newydd o ymateb i'r heriau yma.



Amcanion Strategol ARFOR

Cyllideb Benodol i gefnogi mentrau yn Rhanbarth Rhaglen ARFOR i ddatblygu cynlluniau sy'n ymateb i Amcanion Strategol ARFOR:

1. **Creu cyfleoedd i bobl a theuluoedd ifanc (≤ 35 oed) aros neu i ddychwelyd i'w cymunedau cynhenid** - gan eu cefnogi i lwyddo'n lleol drwy fentro neu ddatblygu gyrfa a sicrhau bywoliaeth sydd yn cyflawni eu dyheadau.
2. **Creu cymunedau mentrus o fewn y fro Gymraeg** - drwy gefnogi mentrau masnachol a chymunedol sy'n anelu i gadw a chynyddu cyfoeth lleol gan fanteisio ar hunaniaeth a rhinweddau unigryw eu hardaloedd.
3. **Uchafu budd gweithgaredd drwy gydweithio** - drwy sefydlu meddylfryd dysgu drwy wneud a gwella parhaus, dysgu o weithgaredd o fewn ardaloedd unigol ac yna ei ymestyn, ond gyda theilwra i amgylchiadau lleol.
4. **Cryfhau hunaniaeth cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg** - drwy gefnogi defnydd a gwelededd y Gymraeg, annog naws am le a theyrngarwch lleol, ynghyd â chynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n gyffredin ar draws y rhanbarth.

Pwy mae Cronfa Cymunedau Mentrus yn eu targedu?

Mae'r cynllun yn targedu mentrau sy'n awyddus i fanteisio ar hunaniaeth a rhinweddau unigryw sydd yn greiddiol i gymunedau Rhanbarth ARFOR, a/neu fentrau sy'n anelu at gadw a chynyddu cyfoeth yn lleol.

Nod Rhaglen ARFOR yw cefnogi busnesau a mentrau o bob sector, sydd â dyheadau i dyfu a chwarae rôl flaengar yn nhwf economaidd eu cymunedau cynhenid a Rhanbarth ARFOR.

Mae'r gronfa'n agored i'r canlynol:

- Mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol a grwpiau cymunedol - mae angen iddynt fod yn fasnachol ag fod sicrhad fod gweithgareddau yn parhau ar ôl y grant.
- Busnesau cynhenid sydd wedi'u sefydlu ac sy'n weithredol yn ardal ARFOR
- Busnesau tu allan i ranbarth Rhaglen ARFOR ond sy'n awyddus i ehangu neu adleoli o fewn y rhanbarth



Beth all y gronfa eich helpu i'w wneud?

Bydd y cynllun yn rhoi cymorth ariannol i fentrau oresgyn yr heriau economaidd presennol a datblygu.

Bydd y sylw pennaf ar gefnogi'r economi a drwy hynny creu swyddi da*, cefnogi'r Gymraeg (cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith), ac ymateb i anghenion a dyheadau pobl a chymunedau lleol. Nid yw'r ffocws ar greu twf yn unig.

* *Diffiniad Swyddi Da*

- Swyddi sydd yn galluogi unigolion i fyw yn eu cymunedau
- Swyddi sydd yn cyflawni dyheadau gyrfaoedd a mentro
- Swyddi sydd yn cyfrannu at ffyniant yr economi leol
- Cyflogau i fod yn gyfartal neu uwch na'r Cyflog Byw

Dyma esiamplau o gynlluniau posib:

- Cyfle i arloesi a datblygu mentrau newydd yn unol ag adnoddau, tirwedd a'r amgylchedd lleol.
- Creu neu ehangu cyfleoedd gwaith cyfoes (e.e., ym meysydd y cyfryngau, y byd digidol, ymchwil, gwasanaethau proffesiynol).
- Cadw cyfoeth yn y rhanbarth (e.e. trwy feysydd megis cynhyrchu ac arbed ynni, cadwyni cyfenwi'r sectorau sylfaenol).

A drwy hynny:

- Datblygu Gofodau Cymraeg sy'n cynnig amgylchedd naturiol i bobl weithio a chymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Creu cyfleoedd i'r Gymraeg ffynnu, e.e., trwy greu swyddi i siaradwyr Cymraeg; cynnig gwersi Cymraeg i staff; cynyddu'r gwasanaethau a gaiff eu cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg; cynyddu'r defnydd gweledol o'r Gymraeg neu ddatblygu brand newydd lle mae'r Gymraeg yn gyfartal neu'n fwy amlwg na'r Saesneg.

Yn ei hanfod, mae'r gronfa'n chwilio am gynlluniau newydd ac arloesol, sy'n ymateb i'r heriau uchod ac amcanion strategol Rhaglen ARFOR.

Mae amcanion strategol Rhaglen ARFOR i'w gweld uchod.

Rhaid i bob prosiect gael eu cwblhau erbyn diwedd Rhagfyr 2024.



Y gefnogaeth sydd ar gael

- Cyllid i gyfrannu at gostau refeniw a chyfalaf.
- Cefnogaeth ariannol i dalu am hyd at 70% o gostau'r prosiect.
- Pecynnau cefnogaeth rhwng £5,000 a £75,000 ar gael.
- Angen i anfonebau fod gyda isafswm o £250.
- Cefnogaeth i ddatblygu a chreu gofodau Cymraeg - costau ynghlwm a rhent, costau cyfreithiol; costau addurn; darnau gosod a gosodiadau.
- Costau Staff Cymraeg - i gefnogi busnes i dyfu, datblygu cyfleoedd busnes newydd neu gynnig gwasanaeth newydd. Mae disgwyliad i unrhyw swydd newydd ariannir i barhau tu hwnt i gyfnod Rhaglen ARFOR Mawrth 2025.

Dylai staff newydd fod yn gallu siarad Cymraeg neu yn ymrwymo i ddysgu siarad Cymraeg. Mae'n bosib ceisio am arian i hyfforddi staff i ddysgu Cymraeg neu Gloywi Iaith Gwaith.

- Costau hyfforddiant i staff newydd sy'n cael ei chreu trwy gefnogaeth Rhaglen ARFOR neu staff presennol i gyfarch anghenion Rhaglen ARFOR.
- Offer ar raddfa fach.
- Costau cyfalaf.
- Mae hi'n bosib i'r gronfa ystyried cerbydau arbennig a fydd yn galluogi y busnes i ddatblygu ymhellach. Dydi hyn ddim yn cynnwys cerbyd cyffredinol mae angen iddo fod yn rhywbeth arbennig/unigryw.
- Mae'n bosibl mewn amgylchiadau arbennig, ac ar cais yr ymgeisydd, i Awdurdodau Lleol caniatáu gwariant ar sail risg

Ni all y gronfa gyllido'r canlynol

- Cynlluniau sy'n bodoli'n barod.



-
- Cynlluniau sydd wedi'u hariannu gan gronfeydd eraill Llywodraeth Cymru.
 - Gwaith ymchwil pur (bydd angen i'r cynlluniau fod yn rhai ymarferol).
 - Dydi hi ddim yn bosib defnyddio arian Cronfa Ffyniant Bro'r DU i fod yn arian cyfatebol i Gymunedau Mentrus ond mae modd ei ddefnyddio i ychwanegu gwerth i unrhyw gynlluniau.
 - Ni ystyrir rhoi grantiau ar gyfer yr hyn sy'n cael ei brynu ag arian parod.
 - Ni fydd eitemau a brynir trwy brydlesu, hurbrynu, prydlesu cyllid/trefniadau credyd estynedig yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid grant.
 - Mae eitemau a brynir drwy gardiau credyd yn gymwys ond bydd angen i'r ymgeisydd ddangos fod y swm ar y cerdyn sy'n gysylltiedig â'r eitem(au) yn y cais am grant wedi'i dalu'n llawn cyn hawlio'r grant.
 - Ni fydd grant yn cael ei gynnig na'i dalu os bydd gan y busnes neu'r ymgeisydd ôl-ddyledion mewn perthynas ag unrhyw daliad i unrhyw un o'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn y cynllun ac yn ei weithredu.
 - Prynu Tir ac/neu Eiddo domestig
 - Llety Preswyl /domestig
 - Gwaith atgyweirio, cynnal a chadw ac/neu gostau rhedeg busnes cyffredinol
 - Offer neu wasanaethau sydd angen eu prynu er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Statudol
 - TAW Adferadwy
 - Prynu asedau dan gytundebau Hurbrynu (HP), Cytundebau Credyd Estynedig neu Brydles



Disgwyliadau

Bydd angen i ymgeiswyr:

- Ymrwymo i egwyddorion ARFOR, trwy lofnodi cytundeb egwyddorion ar y cyd.
- Cwblhau asesiad ieithyddol drwy gynllun Cynnig Cymraeg, Gomisiynydd y Gymraeg.
- Ymrwymo i fynychu gweminarau penodol e.e. Sero Net; Dwyieithrwydd
- Ymrwymo i adolygu a chynyddu defnydd o'r Gymraeg.
- Ymrwymo i gynnig cyfraddau Cyflog Byw y Sefydliad Cyflog Byw (Living Wage Foundation).
- Ymrwymo i hyrwyddo Rhaglen ARFOR i gydnabod unrhyw cefnogaeth ariannol a cymryd rhan mewn unrhyw ymgyrchoedd ar gyfer Rhaglen ARFOR e.e. Bwrlwm ARFOR.



Allbynnau

- | | |
|---|------------|
| • Mentrau newydd yn derbyn cefnogaeth | 160 |
| • Mentrau presennol yn derbyn cefnogaeth | 200 |
| • Buddsoddiad wedi ei ennyn | £2,250,000 |
| • Cynnyrch / gwasanaeth newydd wedi sicrhau | 250 |
| • Swyddi wedi eu creu | 578 |
| • Swyddi wedi eu diogelu | 178 |
| • Cyfranogwyr i fentrau cymdeithasol | 100 |
- Datblygu Gofodau Cymraeg sy'n cynnig amgylchedd naturiol i bobl weithio a chymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg.
 - Creu cyfleoedd i'r Gymraeg ffynnu, e.e.
 - trwy greu swyddi i siaradwyr Cymraeg,
 - cynnig gwersi Cymraeg i staff,
 - cynyddu'r gwasanaethau a gaiff eu cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg,
 - cynyddu'r defnydd gweledol o'r Gymraeg neu ddatblygu brand newydd lle mae'r Gymraeg yn gyfartal neu'n fwy amlwg na'r Saesneg.

Canlyniadau (tymor canolig)

- Mentrau yn cyfarch anghenion trigolion a chymunedau
- Mentrau wedi eu gwreiddio o fewn eu cymunedau
- Cadw cyfoeth o fewn cymunedau
- Cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau
- Sicrhau ffyniant a chynaliadwyedd ein Cymunedau Cymraeg
- Cynnydd yn ansawdd swyddi o fewn mentrau

Effeithiau (hirdymor)

- Lleihau'r bwlch cyfoeth
- Seiliau economaidd mwy amrywiol
- Economi mwy cylchol
- Cynnydd ym mywiogrwydd cymunedau
- Gwytnwch a chynaliadwyedd cymunedau yn cynyddu
- Cyfradd siaradwyr Cymraeg yn sefydlogi
- Bobl yn gallu byw, gweithio a mwynhau yn Rhanbarth ARFOR



Ymgeisio am y gronfa

Does dim amserlen na dyddiad cau. Mae'r gronfa ar agor hyd nes y bydd y gyllideb i gyd wedi'i dyrannu.

Mae angen sicrhau eich bod wedi cynnwys yr holl ddogfennaeth yn y rhestr wirio.



RHESTR WIRIO - CYN CYFLWYNO

Ticiwch y rhestr wirio ganlynol i sicrhau bod yr holl wybodaeth wedi cael ei ystyried wrth gyflwyno cais.

	Ffurflen Gais gyflawn	
	Ffurflen Buddiolwyr	
	Cytundeb Egwyddorion ARFOR wedi ei arwyddo	
	Prawf o Aseiad Iaith Comisiynydd y Gymraeg	
	Cynllun Busnes	
	Cyfrifon dwy flynedd o'r gorffennol (cyfrifon rheoli os ydynt ar gael)	
	Rhagolygon ariannol 3 blynedd (llif arian a'r elw a'r gollod)	
	Caniatâd statudol yn cynnwys caniatâd cynllunio, rheoliadau adeiladu (os yn berthnasol)	
	Cytundeb prydles (os yw'n berthnasol)	
	Prawf o arian cyfatebol	
	Cydnabyddiaeth gwrthdaro buddiannau (os yw'n berthnasol)	
	Disgrifiad(au) swydd os yn berthnasol	

